YSGOL PANT PASTYNOG

# Adroddiad y Llywodraethwyr

# *Governors' Report*

# 2023-24

**Rhagair**

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Braint o’r mwyaf ar ran y Corff Llywodraethwyr yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Ysgol Pant Pastynog am y flwyddyn 2023-24 i chi.  Mae’r adroddiad hwn yn grynodeb teilwng o brif ddigwyddiadau a llwyddiannau’r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol a fu.

Ymfalchiwn yn llwyddiant yr ysgol eto eleni dan arweiniad Mr Meirion Edwards a’r tím gweithgar a hynod ymroddgar o staff sy’n gweithio’n ddiwyd fel un i sicrhau’r profiadau gorau a’r safonau uchaf i’n disgyblion. Diolch i bob un ohonynt am eu gwaith pwysig.

Mor braf yw parhau i weld cyfraniad brwdfrydig y disgyblion i fywyd a chymuned yr ysgol a’u gwylio yn ‘tyfu’ o ran eu hyder a’u sgiliau o flwyddyn i flwyddyn. Mae eu llwyddiannau’n niferus bob blwyddyn ond yn sicr eleni, roedd y Parti llefaru yn dod yn ail drwy Gymru, yn binacl.  Tipyn o gamp!  Cadarnhaol hefyd yw gweld fod lefel presenoldeb y disgyblion wedi codi eleni gan ddod yn nes at y targed cenedlaethol. Hyderwn y byddwn fel cymuned yr ysgol, yn rhieni, staff a llywodraethwyr yn parhau i geisio sicrhau’r presenoldeb uchaf gan ddisgyblion gan fod hyn yn allweddol er mwyn iddynt ffynnu.

Does dim dwywaith amdani ein bod yn ffodus iawn hefyd o’ch cefnogaeth chi fel rhieni.  Yn wir, mae bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad cymunedol yn dystiolaeth fod cymuned gref yn gefn i holl weithgareddau’r ysgol, a hyn oll yn gyfraniad pwysig i fywyd yr ysgol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i’r rhai sy’n ganolbwynt yr ysgol, sef y disgyblion. Pryd bynnag y bydd unrhyw un yn ymweld á’r ysgol, mae yno groeso cynnes a gwen barod bob tro ganddynt.  Nhw yw’r rhai sy’n gwneud yr ysgol hon mor arbennig, a diolch i bob un ohonynt am hynny.

Gan edrych ymlaen at barhau i fynd o nerth i nerth eto eleni.

Yn gywir,

Meryl Pierce

Cadeirydd Corff Llywodraethwyr Ysgol Pant Pastynog

***Foreword***

*Dear Parent / Guardian,*

*It is a great privilege on behalf of the Governing Body to present to you the Annual Report of Ysgol Pant Pastynog for the year 2023-24.  This report is a fitting summary of the school's main events and successes for the past school year.*

*We are proud of the school's success again this year under the leadership of Mr Meirion Edwards and the hard-working and extremely dedicated team of staff who work diligently as one to ensure the best experiences and the highest standards for our pupils.  Thank you to all of them for their important work.*

*It is so positive to see the pupils' enthusiastic contribution to the school's life and community, and to watch them 'grow' in terms of their confidence and skills from year to year. Their successes are numerous every year but certainly this year, with the Reciting party coming second through out Wales, was a pinnacle. Quite a feat!  It is also positive to see that the pupils' attendance level has risen this year, bringing them closer to the national target.  We trust that we as the school community, parents, staff and governors will continue to try to ensure the highest attendance by pupils as this is key for them to flourish.*

*We are also very lucky to have your support as parents.  Indeed, being present at any community event is evidence that a strong community supports all the school's activities, and all of this is an important contribution to the life of the school.*

*Finally, I would like to thank those who are the centre of the school, namely the pupils. Whenever anyone visits the school, there is always a warm welcome and a ready smile from them.  They are the ones who make this school so special, and I thank all of them for that.*

*Looking forward to continuing to go from strength to strength again this year.*

*Yours sincerely,*

*Meryl Pierce*
*Chairperson of the Governing Body of Ysgol Pant Pastynog*

**Staff yr Ysgol – *School Staff***

| | |
|---|---|
| Pennaeth – *Head teacher*: | Mr Meirion Edwards |

Gyda gofal dosbarth Bl5 a 6 / *with Yr 5 & 6 class responsibility*

*Athrawon Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2 Teachers*

| | |
|---|---|
| Athrawes Bl 5 a 6 / Yr 5 and 6 teacher | Mrs Mali Williams |
| Athrawes Bl 3 a 4 / *Yr 3 & 4 teacher* | Mrs Teleri Roberts |
| *Athrawes gyflenwol / Supply Teacher* | *Miss Ela Jones* |

| | |
|---|---|
| Athrawon y Cyfnod Sylfaen | Miss Lois Lightfoot |
| *Foundation Stage Teachers:* | Mrs Helen Davies |

| | |
|---|---|
| Cynorthwywyr Dysgu: | Miss Margaret Williams |
| *Learning assistants:* | Ms Elin Jones |
| | Mrs Siân V. Jones |
| | Miss Glenda Jones |
| | Miss Celi Evans |

Staff Cynorthwyol – *Auxiliary staff:*

| | |
|---|---|
| Ysgrifenyddes – *Secretary:* | Mrs Gwenan Roberts |
| Cogydd – *Cook:* | Mrs Gwenan Roberts |
| Gofalwr – *Caretaker*: | Mr David Jones |
| Cynorthwywyr Ganol dydd | Miss Margaret Williams a Miss Elin Jones |
| *Midday Supervisors* | |

| | |
|---|---|
| Clwb Brecwast – *Breakfast Club* | Mr David Jones |
| | Miss Elin Jones |

**Y Corff Llywodraethol – *The Governing Body***

| | |
|---|---|
| Cadeirydd/*Chairperson:* | Mrs Meryl Pierce |
| Is-gadeirydd/*Vice Chairperson:* | Mrs Iona Jones |
| Clerc/*Clerk*: | Mrs Gwenan Roberts |
| | |
| Llywodraethwyr AALl:<br>*LEA Governors:* | Mrs Meryl Pierce<br>Mrs Iona Jones |
| Llywodraethwyr Cymunedol:<br>*Community Governors:* | Mrs Ceri Davies hyd at Mehefin yna Mr Ian Evans<br>Mr Robert Davies |
| Rhiant Lywodraethwyr:<br>*Parent Governors:* | Mrs Dona Jones<br>*Mr Huw Davies*<br>Mrs Llinos Anderson |
| Llywodraethwyr Sylfaen:<br>*Foundation Governors:* | Parchedig Martin Pritchard<br>Mr Philip Williams |
| Athrawon/*Teachers:* | Mr Meirion Edwards / Miss Lois Lightfoot |
| Staff / Staff | Mrs Sian Jones |
| Gellir cysylltu â'r Cadeirydd a'r Clerc yn:<br>*The Chair and Clerk can be contacted at:* | Mrs Gwenan Roberts, Ysgol Pant Pastynog,<br>Prion, Dinbych, LL16 4SA - 01745 890331 |

**Costau a threuliau'r Corff Llywodraethol – The Governors' cost and expenses**

Yn unol â Pholisi Lwfansau Llywodraethwyr yr ysgol, ni thalwyd unrhyw gostau i'r Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn.

*In line with the school Governors' Allowances Policy, there weren't any costs paid to any Governors during the year.*

Roedd y cyfarfodydd canlynol wedi cymryd lle dros y flwyddyn.

The following meetings were held during the year:

| Cyfarfodydd 2023-24 Meetings | Tymor yr Hydref<br>Autumn Term<br>2023 | Tymor y Gwanwyn<br>Spring Term<br>2024 | Tymor Yr Haf<br>Summer Term<br>2024 |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethwyr Llawn**<br>*Full Governors Meeting* | 25.10.2023<br>7.12.2023 | 20.3.2024 | 26.6.2024 |
| **Is-bwyllgor Cwricwlwm**<br>*Curriculum Sub-Committee* | 15.11.2023 | 6.3.2024 | 12.6.2024 |
| **Is-bwyllgor**<br>**Cyllid ac Adnoddau**<br>*Finance and Assets Sub-committee* | 25.10.2023<br>7.12.2023 | 20.3.2024 | 26.6.2024 |
| **Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch**<br>*Health and Safety Sub-committee* | 18.10.2023 | 20.2.2024 | 8.5.2024 |

**<u>Cyfarfodydd Llywodraethwyr – *Governors' Meetings*</u>**

Ni chynhelir cyfarfod i rieni yn ystod y flwyddyn.
*No meeting for parents was held during the year.*

Bydd y materion a nodir isod ar agenda pob cyfarfod:
*In every meeting, the matters noted below are on the agenda:*

Diogelu - *Safeguarding*
Cynllun Datblygu Ysgol – *School Development Plan*
Materion ariannol – *Financial matters*
Materion staffio – *Staffing matters*
Materion Iechyd a Diogelwch – *Health and Safety matters*
Hyfforddiant Llywodraethwyr – *Governors' training*
Materion Sirol a Rhanbarthol – *County and Regional Matters*
Diweddaru a Chytuno Polisiau—*Update and Adopt policies*

**Canlyniadau – Results**

Does bellach ddim lefelau na deilliannanu i'w gyflwyno i'r Llywodraethwyr ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen / Cyfnod Allweddol 2. Bellach rydym yn cyflwyno canlyniadau 'Asesiadau Personol' y plant o flwyddyn 2 i 6 i'r Llywodraethwyr yng nghyfarfod olaf ym Mis Mehefin/Gorffennaf.

*There are no longer any levels or outcomes to be presented to the Governors at the end of Foundation Phase / Key Phase 2. We now present the results of the children's 'Personal Assessments' from year 2 to 6 to the Governors at the last meeting in June/July.*

**Blaenoriaethau 2023-24 Priorities**

Gweler isod Blaenoriaethau'r Ysgol ar gyfer 2023-24.

*See below the School's Priorities for 2023-24.*

1. Datblygu sgiliau llafar y disgyblion wrth ddilyn cynllun llythrennedd Sir Ddinbych. */ Develop the pupils' oral skills by following Denbighshire's literacy plan.*
2. Datblygu sgiliau rhifedd y disgyblion gyda ffocws ar ei ddatblygu'n drawsgwricwlaidd ac mewn cyd-destunau real. */ Developing the pupils' numeracy skills with a focus on developing it cross-curricularly and in real contexts.*
3. *Mireinio a datblygu prosesau asesu'r ysgol gyda ffocws ar ddeialog proffesiynol yn yr ysgol a gyda'r clwstwr. / Refine and develop the school's assessment processes with a focus on professional dialogue within the school and cluster.*

**Cyllid yr Ysgol – *School Budget 2023-24***

Mae'r Corff Llywodraethol yn cydweithio'n agos efo Swyddog Cyllid Clwstwr Ysgol Glan Clwyd, wrth drin cyllid yr ysgol. Bydd y Llywodraethwyr yn blaenoriaethu'n addas wrth wario ar staffio ac adnoddau fel bod y ddarpariaeth a gynigwn yn hybu safonau uchel ac addysg o'r radd flaenaf i'r plant.

*The Governing Body works in collaboration with The Glan Clwyd Cluster Finance Officer, when dealing with the school budget. The Governors agree on the priorities regarding staffing and resources so that the provision that we offer promotes high standards and education of the highest rank for the children.*

# Ysgol Pant Pastynog
# Adroddiad Cyllideb / Budget Report 2023-24

**CYNGOR SIR DDINBYCH - DATGANIAD BLYNYDDOL CYFRIF ARIANNOL**

**YSGOL PANT PASTYNOG** — **12/07/2024**

**CYLLIDEB YSGOL DIRPRWYEDIG** — **2023/2024**

| CATEGORI | CYLLIDEB FLYNYDDOL | CYFANSWM GWARIANT | DANWARIANT/ (GORWARIANT) |
|---|---|---|---|
| GWEDDILL WEDI'I DDWYN YMLAEN | (46,546) | (46,546) | 0 |
| CYFLOGAU STAFF | 368,872 | 382,307 | (13,434) |
| ADEILADAU | 22,568 | 19,385 | 3,183 |
| CLUDIANT | 0 | 1,024 | (1,024) |
| CYFLENWADAU AC YSWIRIANT | 28,965 | 25,468 | 3,498 |
| GWASNAETHAU A CHYTUNDEBAU | 30,875 | 26,344 | 4,530 |
| INCWM | (27,341) | (55,690) | 28,349 |
| WRTH GEFN | 1,650 | 26,751 | (25,102) |
| **CYFANSWM YSGOL** | **379,042** | **379,042** | **0** |

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL - ANNUAL STATEMENT OF FINANCIAL ACCOUNT**

**YSGOL PANT PASTYNOG** — **12/07/2024**

**DELEGATED SCHOOL BUDGET** — **2023/2024**

| CATEGORY | ANNUAL BUDGET | TOTAL EXPENDITURE | UNDERSPEND/ (OVERSPEND) |
|---|---|---|---|
| BALANCE B/FWD | (46,546) | (46,546) | 0 |
| EMPLOYEES | 368,872 | 382,307 | (13,434) |
| PREMISES | 22,568 | 19,385 | 3,183 |
| TRAVELLING EXPENSES | 0 | 1,024 | (1,024) |
| SUPPLIES & INSURANCE | 28,965 | 25,468 | 3,498 |
| SERVICES AND CONTRACTS | 30,875 | 26,344 | 4,530 |
| INCOME | (27,341) | (55,690) | 28,349 |
| CONTINGENCY | 1,650 | 26,751 | (25,102) |
| **SCHOOL TOTAL** | **379,042** | **379,042** | **0** |

Derbyniwyd y rhoddion canlynol yn ystod 2023-24:

*The following donations were received during 2023-24:*

**Grantiau – *Grants***

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanrhaeadr / Llanrhaeadr Community Council - Defib | £ | 1000.00 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales | £ | 1058.00 |
| Melinau Gwynt Nantglyn – Gymnasteg / Nantglyn Wind Farm Trust - Gymnastics | £ | 1660.00 |
| Grant Tir Mostyn / Tir Mostyn Grant – Swimming costs | £ | 1000.00 |
| Grant Cronfa St Mary / St Mary's Trust – Taith Gadeirlan / Cathedral visit | £ | 200.00 |

**Cyfraniadau Eraill a Dderbynwyd—*Other Contributions Received***

| | | |
|---|---|---|
| Melin Gwynt Hafodty Ddu | £ | 3,000.00 |
| Rhodd gan / Donation from Mr William Ascroft Hutton (Vicarage) | £ | 200.00 |
| Rhodd gan / Donation from Mrs Eira Jones | £ | 100.00 |

**Cefnogi elusenau – Supporting Charities**

Codwyd yr arian canlynol at waith elusennol / *The following sums of money were raised for charity:*

| | | |
|---|---|---|
| Codi arian i Fanc Bwyd Dinbych / Denbigh Food Bank | £ | 200.00 |
| Diwrnod y Rhif *NSPCC Numbers Day* | £ | 39.00 |
| Ysbyty Alderhay / Alderhay Hospital | £ | 362.22 |
| Plant Mewn Angen / *Children in Need* | £ | 88.00 |

Casglwyd hefyd fwyd tuag at y Banc Bwyd Dinbych ym mis Hydref 2023 yn dilyn gwasanaeth Diolchgarwch. A bu arian a godwyd yn dilyn ein Gwasanaeth Nadolig fynd tuag at Ysbyty Alder Hay.

*Food was also collected for Denbigh Food Bank in October 2023 following our Harvest service. Money raised after our Christmas Service was collected towards Alder Hay Hospital.*

**Cwricwlwm yr ysgol – School curriculum**

Mae plant Ysgol Pant Pastynog yn derbyn addysg o ansawdd uchel. Prif nod ein Cwricwlwm yw helpu plant i gyflawni'r 4 diben sef, bod yn -

- Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog,
- Dysgwyr mentrus a chreadigol,
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus
- Dysgwyr iach a hyderus.

Er mwyn i'r plant gyrraedd y 4 diben rydym yn addysgu'r 6 Maes dysgu a Phrofiad sef:

1. **Celfyddydau Mynegiannol** - Celf, Dawns, Ffilm, Drama, Cerddoriaeth a Chyfryngau Digidol

2. **Iechyd a Llesiant** - Dysgu am gael corff a meddwl iach, deall perthnasoedd iach a sut i wneud penderfyniadau bywyd da.

3. **Dyniaethau** - Dysgu am hanes, daearyddiaeth a chrefyddau. A hefyd busnes, gwleidyddiaeth

4. **Ieithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu** - Dysgu a deall sut i gyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd (llafar, darllen ac ysgrifennu.)

5. **Mathemateg a Rhifedd** - Dysgu sgiliau rhif, trin data, siâp a chyfrifo.

6. **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** - Deall natur a phethau byw, sut mae pethau yn gweithio, dylunio ac adeiladu pethau.

Ynghlwm i'r hyn a ddysgir drwy'r Meysydd Dysgu mae'r plant hefyd wedi bod yn dysgu sgiliau llythrennedd, rhif a digidol yn drawsgwricwlaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn parhau i gael gwersi Cymraeg a Mathemateg bob bore ac yna bob prynhawn rhown gyfleoedd i'r plant ddysgu drwy chwarae yn y gwahanol ardaloedd dysgu: ardal iaith, ymchwiliol, rhif, adeiladu, byd bach, yr ardal dawel, sain, dwylo prysur, graffeg, TGCh, rhyngweithiol, iach a thu allan.

*The Pupils at Ysgol Pant Pastynog receive education of a good standard. The main aim of our Curriculum is to ensure that the children become -*

- *Ambitious, capable learners*
- *Enterprising, creative contributors*
- *Ethical, informed citizens*
- *Healthy, confident individuals*

*In order for the children to achieve the 4 purposes we teach the 6 Areas of learning and Experience which are:*

*1. **Expressive Arts** - Art, Dance, Film, Drama, Music and Digital Media*

*2. **Health and Wellbeing** - Learning about having a healthy body and mind, understanding healthy relationships and how to make good life decisions.*

*3. **Humanities** - Learning about history, geography and religions. And also business, politics*

*4. **Languages, Literacy and communication** - Learning to communicate (speaking, writing and understanding different languages).*

*5. **Mathematics and Numeracy** - Learning number skills, data manipulation, shape and calculation.*

*6. **Science and Technology** - Understanding nature and living things, how things work, designing and building things.*

*In addition to what is taught through the 6 Areas of Learning, the children have also been learning literacy, number and digital skills cross-curricular.*

*In the Foundation Stage, the children have Welsh and Maths lessons each morning and every afternoon we give them opportunities to learn through play in the various learning areas: language, investigative, number, building, small world, quiet area, sound, busy hands, graphic, ICT, interactive, healthy and outside.*

**Llawlyfr yr Ysgol – School Prosbectus**

Rydym wrthi'n adolygu a diwygio llawlyfr yr ysgol yn unol â gofynion statudol. Bydd copi o'r prosbectws newydd ar gael yn yr ysgol neu i'w weld ar wefan yr ysgol http://www.ysgolpantpastynog.cymru/ yn fuan.

*The school prospectus is being revised in accordance with the legislative requirements. A copy of the new prosbectus will be available at the school or can be seen on the school's website http://www.ysgolpantpastynog.cymru/ soon.*

**GWAHARDDIADAU / EXCLUSIONS**

Ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn 2023-24.

*No pupils were excluded in the year 2023-24.*

**Presenoldeb - Attendance**

Mae presenoldeb yn dda iawn yn Ysgol Pant Pastynog. Pan fo plentyn yn absennol, disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sy'n bosibl a cyn 8.45 yb, i egluro'r absenoldeb - un ai drwy ffonio'r ysgol neu drwy anfon e-bost.

*Attendance is very good in Ysgol Pant Pastynog. When a child is absent, we expect the parents to contact school as soon as possible before 8.45 – either by phone or by emailing the school.*

**Presenoldeb 2023-24 *Attendance* - Targed / *Target* 96%**

*Tymor yr Hydref / Autumn Term – **94.44%***

*Tymor y Gwanwyn / Spring Term – **95.44%***

*Tymor yr Haf (Wythnos gyntaf mis Gorffennaf) / Summer Term (to the first week in July) – **93.40%***

**Targed blwyddyn nesaf fydd (2024-2025) 96%.** Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth i gyrraedd y targed hwn.

***Next year's target will be (2024-2025) 96%****. We kindly ask for your support to reach this target.*

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol – *Personal and Social Education***

Mae ABCh yn helpu plant i ddatblygu'n bobl gyfrifol a hunan hyderus ac mae agweddau o ABCh yn gwau drwy holl bynciau'r cwricwlwm drwy'r ysgol. Anogwn ein plant i chwarae rôl bositif wrth gyfrannu at fywyd yr ysgol a'r gymdeithas ehangach. Rhoddir cyfle i'r plant gael llais a chlust o fewn y sesiynau Amser Cylch yn y dosbarthiadau.

*PSE helps the children to develop into confident and responsible individuals and aspects of PSE interweave through all subjects throughout the school. We encourage children to play a positive role by contributing to the life of the school and to that of the wider world. The children are given a voice and an ear in the Circle Time within the classes.*

**Cyngor Ysgol - *School Council***

Llwyddodd y Cyngor Ysgol i drefnu codi arian ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen. Yn ogystal bu iddynt benderfynu ar gasglu arian i Ysbyty Alder Hay yn dilyn gwasanaethau Nadolig yr ysgol. Maent hefyd wedi bod yn rhan allweddol wrth gynllunio ardaloedd gwahanol i'r plant gael chwarae ar y buarth. Yn ogystal bu iddynt drefnu noson Ffilm er mwyn codi arian i brynu mainc ffrindiau newydd i'r buarth.

*The School Council managed to organize a fundraiser for Children in Need Day. In addition, they decided to collect money for Alder Hay Hospital following our Christmas services. They have also been a key part in planning different areas for the children to play on the yard. In addition, they organised a Film night in order to raise money to buy a Friend bench for the yard.*

**Chwaraeon – Sport**

Rhoddwyd cyfleoedd i blant yr ysgol gymryd rhan mewn gwersi Chwaraeon amrywiol eleni megis pêl-droed, rygbi, tenis, hoci, dawns, rownderi, pêl osgoi, a phêl rwyd. Rhoddwn bwyslais ar gymryd rhan, ond anelwn hefyd at gyrraedd safonau uchel mewn perfformiadau unigol a gwaith tîm. Cynhaliwyd Clwb Hwyl ar nos Iau bron drwy gydol y flwyddyn ar gyfer plant o Flwyddyn 2 i 6.

*Our pupils were given opportunities to take part in various Sports lessons this year such as football, rugby, tennis, hockey, dance, rounders, dodgeball and netball. We encourage everyone to take part, but we also aim to achieve high standards of performance as individuals and in team work. Our 'Fun Club' was held on Thursday nights almost throughout the year for children from Year 2 to 6.*

**Cymerodd yr ysgol rhan yn y cystadlaethau canlynol yn ystod 2023-24. /**

***The school took part in the following tournaments during 2023-24.***

Cystadleuaeth Rygbi Tag cymysg / Mixed Rugby Tag competition

Pêl-droed yr Urdd timau Bechgyn a Merched / *Urdd Football Boys and Girls teams*

Rygbi Tag yr Urdd Merched / *Girls Rugby Tag*

Rygbi Tag yr Urdd Blwyddyn 3 a 4 cymysg / Yr 3 & 4 Mixed Rugby Tag

Rygbi Tag yr Urdd Bl 5 a 6 cymysg ar y Traeth / Yr 5 & 6 Mixed Rugby Tag on the beach

Cystadleuaeth Criced Sir Ddinbych / Mixed Cricket Competition

Pêl-rwyd yr Urdd Merched / *Girls Netball*

Gŵyl Hoci Gogledd Cymru / *North Wales Hockey Festival*

25 o blant o CA2 wedi cymryd rhan yn Ras Trawsgwlad Sir Ddinbych / 25 pupils from KS2 took part in the *Denbighshire Cross Country race*

**Cystadleuaeth Gyfeillgar / *Friendly Tournament***

Bu i blant Bl 5 a 6 cael gêm bêl droed gyfeillgar gydag Ysgol Bro Cinmeirch gan chwarae yn ysgol Bro Cinmeirch.

*Year 5 and 6 children had a friendly football match with Ysgol Bro Cinmeirch playing at Ysgol Bro Cinmeirch.*

**Nofio / *Swimming***

Cafodd plant o Flwyddyn 1 i 6 wersi nofio drwy'r Ysgol eleni.

*Pupils from Year 1 to 6 had swimming lessons arranged by the School this year.*

**Gymnasteg / Gymnastics**

Cafodd plant o Flwyddyn Derbyn i 6 wersi Gymnasteg am 6 wythnos yng Nghlwb Gymnasteg Dinbych a Ruthun.

*Pupils from Reception to Yr 6 had Gymnastics lessons for 6 weeks at Denbigh and Ruthin Gymnastics Club.*

**Beicio / *Biking***

Cafodd plant Blwyddyn 6 gyfle i gael hyfforddiant beicio Lefel 1 a 2.

*Year 6 children had the opportunity to have Level 1 and 2 cycling training.*

**Mabolgampau – *Sports day***

Cafodd yr ysgol ddiwrnod Mabolgampau **Dydd Llun 17eg o Fehefin**, a bu i blant CA2 cael Mabolgampau Maes yr wythnos cynt. Roedden yn hapus iawn gweld gyn gymaint o rhieni a theuluoedd oedd wedi gallu ymuno gyda ni, i gefnogi'r plant ar y diwrnod.

*There was a whole School Sports day on **Monday June 17th**, and pupils from KS2 had a field sports day the week before. We were very happy to see so many parents and families who were able to join us, to support the children on the day.*

**Eisteddfod Urdd – Urdd Eisteddfod**

Bu i sawl plentyn gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Dinbych - Unigolion, Parti Llefaru, Grwpiau Ymgom a Chôr yr ysgol. Roedd pawb wedi cynrychioli'r ysgol yn wych! Bu i sawl eitem fynd ymlaen i Eisteddfod Sir Ddinbych, ble daeth llwyddiant eto i'r Parti llefaru a dau blentyn - Cyntaf gyda Llefaru Bl 5 a 6 a Cyntaf gyda Dawnsio Hip Hop. Yn Eisteddfod Genedlaethol ym Maldwyn lwyddodd ein Parti llefaru ddod yn ail drwy Gymru!

Yn ychwanegol roedd sawl plentyn o'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd, gydag un disgybl yn dod yn ail drwy Gymru gyda gwaith tynnu llun 2D i Flwyddyn 2 a llai.

Cynhaliwyd Cystadleuaeth COGURDD yn yr ysgol ym mis Hydref, gyda 19 o blant o Fl 4, 5 a 6 wedi ymgeisio. Ardderchog pawb!

*Several children competed in the Denbigh Area Urdd Eisteddfod - Individuals, Reciting Party, Dialogue Groups and the school Choir. Everyone represented the school brilliantly! Several items went on to the Denbighshire Eisteddfod, where success came again for the Reciting Party and two children getting first with Year 5 and 6 Reciting, and first with Hip Hop Dancing. At the National Eisteddfod in Maldwyn our Reciting Party managed to come second in Wales!*

*In addition, several children from the school had been successful in the Urdd Art and Craft competitions, with one pupil coming second in Wales with her 2D drawing for Year 2 and under.*

*The COGURDD Competition was held at the school in October, with 19 children from Years 4, 5 and 6 having competed. Fantastic everyone!*

**Gweithgareddau –** Cofiwch ddilyn ni ar trydar **@pantpastynog** i weld lluniau sy'n cael eu hychwanegu'n ddyddiol, neu gallwch ymweld â'n gwefan https://www.ysgolpantpastynog.cymru neu tudalen Facebook ac Instagram.

Dyma flas o'r gweithgareddau gafodd y plant dros y flwyddyn:

- Sgwrs gan PC Llinos bob tymor drwy'r ysgol.
- Ymweliadau Meithrin a Derbyn – â Milfeddyg a'r Ysbyty yn Ninbych fel rhan o thema 'Pobl sy'n ein helpu'. Taith i Bala. Gŵyl Meithrin yn Neuadd y Dref Dinbych. Ymweld â Ffynnon Dyfnog a Tweedmill fel rhan o'i gwaith Thema. Plant Meithrin a Derbyn wedi gweld Sioe Rala Rwdins Cerdyn Post o wlad y Rwla yn Rhyl a Bad Achub RNLI Rhyl. Cafodd plant Meithrin a Cylch gyfle i fynd i gael picnic ar lan y môr.
- Ymweliadau Bl 1 a 2 - Ymweld â Milfeddyg a'r Ysbyty yn Ninbych fel rhan o thema 'Pobl sy'n ein helpu'. Bl 1 a 2 hefyd wedi ymweld â gardd Chris a Liz Kameen. Sioe Deian a Loli yn Theatr Twm o'r Nant. Taith i Bala. Ymweliad ag Amgueddfa 50au Cae Dai, ger Dinbych oedd yn cyd-fynd gyda'i themâu Ddoe a heddiw. Bl 1 i 2 wedi gweld Sioe Deian a Loli, 'Y Ribidirew Olaf', ym Mhafiliwn Rhyl. Cafodd plant Bl 1 a 2 gyfle i ymweld â Llanbenwch fel rhan o wythnos Mentergarwch. Aeth plant Bl Derbyn 1 a 2 i Ysgol Tremeirchion i gynnal Diwrnod Gemau Olympaidd gydag Ysgol Henllan. Cafodd Plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i fynd i wylio ffilm yn Theatr Twm o'r Nant - wythnos ffilm Dinbych.
- Ymweliadau CA2 - Gwylio Pantomeim Nadolig yn Wyddgrug. Ymweliad plant Bl 3-6 ag Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Bl 5 a 6 wedi cael tridiau yng ngwersyll yr Urdd, Caerdydd. Bl 3 i 6 wedi gweld Sioe Deian a Loli, 'Y Ribidirew Olaf', ym Mhafiliwn Rhyl. Cafodd plant Bl 5 a 6 gyfle i gydweithio gyda phlant Ysgol Henllan ac Ysgol Tremeirchion wrth iddynt fynd draw i Ysgol Henllan i gael Diwrnod Datrys problemau. Bu I Bl 3 a 4 ymweld â chwmni Meirion Davies a Bl 5 a 6 Cwmni Llaeth y Llan fel rhan o weithgaredd wythnos Mentergarwch. Trip ysgol gyfan i Gelli Gyffwrdd.
- Ymwelwyr - Daeth riant sy'n ddeintydd draw i siarad gyda phlant Meithrin a Derbyn, Emma o wasanaeth Tan wedi dod i weld Bl 1 a 2. Sawl hyfforddwr o gwmni Cerdd Gydweithredol Sir Ddinbych, wedi bod draw gyda phlant Bl 3 a 4. Mr Phormiwla Ed Holden wedi bod i mewn i hyrwyddo defnydd o'r Iaith Gymraeg, gwasanaeth Ysgol a gweithdy ar gyfer Bl 3-6.

Ymweliad gan Mr Urdd i bob dosbarth i ddathlu diwrnod Cariad@yrurdd. Liam o Glwb Hoci Dinbych wedi bod draw i gynnal prynhawn o hyfforddi i blant Bl 3 i 6. Aron Swyddog Hwb Rygbi'r Sir wedi bod mewn yn hyfforddi plant Bl 3 a 4. Gweithdy Microbits gan gwmni Technocamps i Bl 5 a 6. Hefyd Bl Derbyn, 1 a 2 wedi cael cyfle i dderbyn hyfforddiant gyda Sphero gan yr un cwmni. Bl 3-6 wedi cael gweld Sioe Mewn Cymeriad - 'Taith yr Iaith' gan Llion Williams yn yr ysgol. Bl 5 a 6 wedi cael cyflwyniad am Awtistiaeth gan Gethin Siôn. Ymweliad gan Mr Tomos Hughes i hyfforddi'r plant, staff ac aelodau o'r gymuned ar sut i wneud CPR a defnyddio'r Defib newydd.
Cafwyd ymweliad gan aelodau o Glwb Rasio Colomennod Rhyl, wrth iddynt roi sgwrs i blant Bl 3-6. Yn dilyn y sgwrs cafodd plant Bl 5 a 6 daith i Rhyl i weld colomen yn dychwelyd adref ar ôl cael ei gollwng o'r ysgol.

- Gwasanaethau misol wedi eu harwain gan Barchedig Martin Pritchard.
- Gwasanaethau fesul hanner tymor yn cael eu harwain gan Barchedig Andras Iago a Sarah Dafydd. Yn ogystal maent hefyd wedi sefydlu Clwb Capel, sy'n digwydd bob hanner tymor. Dyma glwb poblogaidd iawn yn yr ysgol.
- Gwasanaethau tymhorol yn cael eu harwain gan griw 'Agor y Llyfr'. Yma cafodd sawl plentyn gyfle i berfformio o flaen eu cyfoedion, wrth actio straeon o'r Beibl.
- Pwyllgorau gwahanol wedi cael y cyfle i arwain ein gwasanaethau.
- Cafodd y plant gyfle i weld sioeau Paid â Chyffwrdd, Dweud - Blwyddyn 1 a 2 a Pheidiwch ag Yfed, Meddwl, blynyddoedd 3 - 6.
- Cafwyd gwasanaeth a gweithdy gan NSPCC i blant Bl 5 a 6 ac Bl 1 a 2.
- Cafwyd Gwasanaeth Ysgol ac yna gweithdy egnïol i dri dosbarth Bl 1-2, Bl 3-4 a Bl 5-6 gan Sglefr-fyddiwr Rebeca Davies o 'Sports For Champions'.
- Wedi cynnal sawl prynhawn Llun Llesiol – ble rydym yn canolbwyntio a'r lles y plant - Dr Symud, Dr Natur, Dr Distaw a Dr Diet.
- Bl 1-6 wedi bod yn hel mes yn Ffarm Tan y Waen – Rhan o weithgaredd Miri Mes mis Hydref.
- Cynhaliwyd wythnos Awyr Agored ble cafodd plant ymhob dosbarth gyfle i ddysgu a gwneud gweithgareddau yn yr Awyr Agored.
- Pwyllgor Siarter Iaith wedi cynnal cwis a disgo Cymraeg ar gyfer plant yr ysgol i ddathlu Diwrnod Su' mae'. Bu i ni fenthyg Clustffonau tawel ar gyfer dathlu Dydd Miwsig Cymru. Dathlwyd diwrnod Dewi Sant yn yr ysgol a chafodd plant Blwyddyn 5 a 6 fod yn rhan o orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych. Cafodd y Criw Siarter Iaith hefyd, gyfle i fynd i Ysgol Glan Clwyd i ddangos yr hyn yr oeddent wedi ei wneud yn yr ysgol i hybu'r Gymraeg.
- Diwrnodau eraill a ddathlwyd yn yr ysgol oedd - Owain Glyndŵr, Roald Dahl, T Llew Jones, Cherdyn Coch i Hiliaeth, Gwrth fwlio, Diwrnod y Llyfr ac Iechyd Meddwl a corfforol y plant.
- Daeth Llio o'r Urdd draw i wneud Sesiwn Chwaraeon gyda Meithrin a Derbyn, Bl 1 a 2, a Bl 3 a 4.
- Bu i blant Bl 6 gymryd rhan yng nghystadleuaeth 'Cwis Dim Clem' Menter Iaith Sir Dinbych.
- Cynhaliwyd Cystadleuaeth Mathemateg TTRockstars (Tablau) i blant Bl 5 a 6.
- Roedd pob dosbarth wedi bod yn rhan o brosiect 'Beth sy'n gwneud perthnasau Iach – Sbectrwm'.
- Fel rhan ymestynnol o Brosiect Sbectrwm - Bu i blant Bl 5 a 6 gymryd rhan yn 'Rhaglen Addysgu Cyfoedion' (Bl 5 a 6 yn dysgu plant Bl 1 a 2) i gadw'n ddiogel.
- Cynhaliwyd her darllen noddedig drwy'r ysgol a llwyddwyd i godi £410 tuag at brynu llyfrau newydd.
- Cynhaliwyd noson i rieni er mwyn ddathlu llwyddiant y plant fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

- Cafodd pob dosbarth gyfle i blannu o amgylch yr ysgol yn ystod y flwyddyn.
- Bu i griw o blant Blwyddyn 6 gymryd rhan yn elfen trafod llyfr o Gystadleuaeth Gornest Lyfrau ac yna bu i bawb o blant CA2 fod yn rhan o fideo i hyrwyddo'r llyfr. Llwyddodd yr ysgol i ddod yn ail drwy'r Sir.
- Llogwyd Beiciau Cydbwysedd i blant Meithrin – Bl2 am y 7 wythnos olaf, er mwyn datblygu sgiliau beicio'r plant.
- Bu i Arweinwyr Digidol yr ysgol gael cyfle i fynd i Ysgol Dewi Sant i ddangos sgiliau codio gyda Lego Spike a Microbits gydag ysgolion eraill y clwstwr.
- Cafodd criw o blant Blwyddyn 6 gymryd rhan yng nghystadleuaeth Codio gan gwmni 'Technocamps' yng Nghonwy.
- Cafwyd sgwrs gan elusen Dementia DU i blant Bl 3 i 6 ac agorwyd hyn i'r gymuned hefyd.
- Cafodd criw o blant o flwyddyn 6 fod yn rhan o brosiect Llun mewn llinell E-sgol, ble roeddent yn gweithio gydag Eurig Sailsbury a Mererid Hopwood i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu creadigol.
- Ceir cyswllt agos gydag Ysgol Glan Clwyd, a chafodd y plant gyfle dros y flwyddyn i gymryd rhan mewn sawl gweithgaredd pontio. Bu i Blwyddyn 6 gael ymweliad a Y.G.C i weld sioe 'Y Dechreuad' ac ymweliad gan Mr Dewi Owen yn Nhymor yr Hydref. Daeth Dewi Jones o Y.G.C draw i gynnal gweithdy Radio gyda Bl 6, Tymor y Gwanwyn. Ymweliad am ddeuddydd yn ystod y tymor olaf. Athrawon Gwyddoniaeth, Mathemateg ac Addysg Gorfforol wedi dod draw i'r ysgol i gynnal gwersi yn Nhymor y Gwanwyn/Haf.

**Activities -** Remember to follow us on twitter @pantpastynog to see photos that are added daily, or you can visit our website https://www.ysgolpantpastynog.cymru or our Facebook page and Instagram.

Here is a taste of the activities that the children took part in over the year:

- *A Talk by PC Llinos our Community Police Office every term.*
- *Nursery and Reception – Visit to the Vet's and Denbigh Hospital as part of the 'People who help us' theme. A trip to Bala, Nursery Festival in Denbigh Town Hall. Visit to Ffynnon Dyfnog and Tweedmill as part of their theme work. Nursery and Reception children went to see 'Rala Rwdins Show in Rhyl and also visited the Rhyl RNLI Lifeboat crew. Nursery and Cylch also had the opportunity to go for a picnic on the beach.*
- *Year 1 and 2 - Visit to the Vet's and Denbigh Hospital as part of the 'People who help us' theme. Visited Chris and Liz Kameen's garden. Watch Deian and Loli show at Theatr Twm o'r Nant. A trip to Bala and a visit to the 'Cae Dai 50s Museum', near Denbigh which was Part of Yesterday and Today theme. They also saw the Deian and Loli Show, 'Y Ribidirew Olaf', at the Rhyl Pavilion. Year 1 and 2 children had the opportunity to visit Llanbenwch as part of ourEnterprise week. Reception Year 1 and 2 children went to Tremeirchion School to take part in an Olympic Games Day with Ysgol Henllan and Tremeirchion. Foundation Phase children also had the opportunity to go and watch a film at Theatr Twm o'r Nant - Denbigh film week.*
- *KS2 Visits – Watched the Christmas Pantomine in Mold. Year 3-6 visited St Asaph Cathedral. Yr 5 and 6 had three days residential stay at Urdd Centre in Cardiff. Years 3-6 watched the Deian and Loli Show, 'Y Ribidirew Olaf', at the Rhyl Pavilion. Year 5 and 6 children went to Ysgol Henllan to have a Problem-Solving Day with Ysgol Tremeirchion and Henllan. Year 3 and 4 visited the Meirion Davies company and Year 5 and 6 visited Llaeth y Llan, as part of our Enterprise week activity.*

*There was also a Whole school trip to Greenwood Family Park.*

- *<u>Visitors</u> – A parent who's a dentist came over to give a talk to Nursery and Reception children. Emma from the Fire service come to see Years 1 and 2. Denbighshire Co-operative Music company, have given Years 3 and 4 children the opportunity to use different musical instruments. Mr Phormiwla (Ed Holden) had been in to promote the use of the Welsh Language and workshop for Yr 3-6. We had a visit from Mr Urdd to celebrate Love towards the Urdd day.*
  *Liam from Denbigh Hockey Club came in to teach Year 3 to 6 children. Aron the County Rugby Hub Officer came in to train Year 3 and 4 children. There was a Microbits workshop by Technocamps for Year 5 and 6. Also Reception Year, 1 and 2 had the opportunity to receive training with 'Sphero' from the same company. Years 3-6 got the opportunity to see a play - 'Taith yr Iaith' by Llion Williams. Year 5 and 6 had a presentation about Autism by Gethin Siôn. We had a visit from Mr Tomos Hughes to train the children, staff and members of the community on how to do CPR and use the new Defib. There was also a visit from members of Rhyl Pigeon Racing Club, as they gave a talk to Year 3-6 children. Following the talk Year 5 and 6 children had a trip to Rhyl to see a pigeon returning home after being released from our school!*
- *Monthly services led by Reverend Martin Pritchard.*
- *Services per half term led by Reverend Andras Iago and Sarah Dafydd. In addition, they have also established a Chapel Club, which takes place every half term. This is a very popular club at our school.*
- *Termly services led by 'Open the Book group'. Here several children get the opportunity to perform in front of their peers, acting out stories from the Bible.*
- *Different committees have had the opportunity to lead our services.*
- *The children had the opportunity to see the shows Year 1&2 - 'Don't Touch, Tell'. Yr 3-6 'Don't Drink, Think'.*
- *There was a service and workshop from NSPCC for children in Yr 5 and 6 and Yr 1 and 2.*
- *There was also a Service followed by an energetic workshop for three classes Yr 1-2, Yr 3-4 and Yr 5-6 by Skateboarder Rebeca Davies from 'Sports For Champions'.*
- *We've held several 'Healthy Monday afternoons' - where we focus on the welfare of the children – Movement Dr, Nature Dr, Quiet Dr and Diet Dr.*
- *Years 1-6 have been gathering acorns at Tan y Waen Farm - Part of the Acorn Antics activity in October.*
- *Outdoor weeks were held where children in every class had the opportunity to learn and do activities in the outdoors.*
- *Our Language Charter Committee held a Welsh quiz and disco for the school children to celebrate 'Su' mae' Day. We borrowed silent Headphones to celebrate Welsh Music Day. Saint David's day was celebrated in the school and Year 5 and 6 children were able to be part of the Saint David's Day parade in Denbigh. The Language Charter group also had the opportunity to go to Ysgol Glan Clwyd to show what they had put in place in the school, to promote the Welsh language.*
- *Other days celebrated at the school were - Owain Glyndŵr, Roald Dahl, T Llew Jones, Red Card for Racism, Anti-bullying, Book Day and Children's Mental and Physical Health day.*
- *Llio from the Urdd came over to do a Sports Session with Nursery and Reception, Years 1 and 2, and Years 3 and 4.*
- *Year 6 children took part in the Denbighshire Menter Iaith 'Quiz competition.*

- *Our TTRockstars Mathematics Competition (Tables) was held for Year 5 and 6 children.*
- *All classes had been part of the 'What makes a healthy relationship workshops – with the Spectrum' project.*
- *As an extended part of the Spectrum Project - Year 5 and 6 children took part in a 'Peer Teaching Programme' (Year 5 and 6 teaching Year 1 and 2 children on how to keep safe.)*
- *All the children took part in a sponsored reading challenge where we managed to raise £410 towards buying new books for the school.*
- *An evening was held for parents to celebrate the success of the children who competed in the Urdd Eisteddfod.*
- *Each class had the opportunity to plant around the school during the year.*
- *A group of Year 6 children took part in the book discussion element of the Wales Book Contest and then all of KS2 children were part of a video to promote the book. The school managed to come second throughout the County.*
- *Balance Bikes were hired for Nursery, Reception, Year1 and Year 2 children for the last 7 weeks, in order to develop the children's cycling skills.*
- *Our school's Digital Leaders had the opportunity to go to Ysgol Dewi Sant to demonstrate coding skills using Lego Spike and Microbits with other schools in the cluster.*
- *A group of Year 6 children took part in the Coding competition by 'Technocamps' company in Conwy.*
- *There was a talk by the Dementia UK charity for children from Years 3 to 6 and this was also opened to the community.*
- *A group of children from year 6 were able to be part of a Creative writing project, where they worked with Eurig Sailsbury and Mererid Hopwood to develop their creative writing skills.*
- *There is a close link with Ysgol Glan Clwyd, and the children had the opportunity over the year to take part in several transition activities. - Year 6 had a visit to Y.G.C to see the show 'Y Dechreuad' and had a visit from Mr Dewi Owen in the Autumn Term. Dewi Jones from Y.G.C came over to hold a Radio workshop with Year 6, Spring Term. A visit for two days during the last term. Science, Maths and Physical Education teachers came over to the school to hold lessons in the Spring/Summer Term.*

**Adeiladau – Cynnal a Chadw / *Buildings – Maintenance***

Yn ystod y flwyddyn gwnaed y gwelliannau canlynol:

- Arwydd Ysgol wedi symud ac wedi ei osod ar yr allt sy’n dod i fyny o Ddinbych.
- Maes parcio Staff a Tacsi wedi cael ei wneud ei ymestyn.
- Giat Maglock bellach yn gweithio’n gywir – Ionawr 2024.
- Arwyddion 20mya wedi ei gosod o amgylch yr ysgol – Mawrth 2024.
- Tacluso a chlirio gardd yr ysgol.
- Ffonau newydd yn yr ysgol ac yng nghaban y Plwyf - tymor yr Haf 2024.

*The following improvements were made during the year:*

- *School Sign moved and placed on the hill that comes up from Denbigh.*
- *The Staff and Taxi car park has been made bigger.*
- *Maglock Gate now working correctly – January 2024.*
- *20mph signs placed around the school – March 2024.*
- *Tidying up and clearing the school garden.*
- *New phones installed in the school and in the Parish cabin - Summer term 2024.*

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) – *Parents and Teachers Association (P.T.A)***

Rydym yn hynod o ddiolchgar i bwyllgor Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol am ei gwaith caled i godi arian ar gyfer y plant. Buom yn ffodus iawn eleni iddynt gyfrannu'n haul iawn tuag gostau sawl ymweliad a rhoi ychydig o arian i bob dosbarth wario ar adnoddau. Gweler isod y gweithgareddau a gynhaliwyd eleni:-

- Disgo Calan Gaeaf
- Ffair Nadolig llwyddiannus.
- Noson paned a chacen i ddathlu llwyddiannau plant fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod.
- Barbeciw Haf, ym mis Gorffennaf er mwyn dod a'r gymdeithas gyfagos at ei gilydd.

*We are extremely grateful to our School's Parent and Teacher Association committee for their hard work to raise funds for the children. We were very fortunate this year that they contributed generously towards the costs of several visits and gave each class some money to spend on resources. See below the activities that took place this year:-*

- *Halloween Disco Night*
- *A successful Christmas Fair.*
- *A night of tea/coffee and cake to celebrate the achievements of those children who competed in the Eisteddfod.*
- *Our Summer BBQ, in July, which brings the local community together.*

**Cysylltiadau â'r Gymuned – *Links with the Community***

Mae bod yn rhan o'r gymuned yn bwysig iawn i ni fel ysgol. Mae dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau cael defnyddio gardd Y Ficerdy, Prion i gynnal gwersi tu allan a chael picnic tedi. Mae sawl aelod o'r gymuned wedi bod mewn i'r ysgol yn helpu gyda'r plant, boed gyda gwaith Celf a chrefft, cynnal gweithgareddau Pasg, garddio a hefyd dod i mewn i wrando ar rhai o'r plant yn darllen. Rydym wedi bod yn rhan eto eleni o orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Ninbych ac yn ymfalchïo o weld ein plant yn dangos balchder tuag at eu diwylliant. Rydym wedi gwneud defnydd o Eglwys Llanrhaeadr ar gyfer cynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Mae Cylch Meithrin a Chlwb Sêr yn parhau yn glybiau gwerthfawr dros ben i gymuned yr ysgol a'r gymuned leol. Hefyd mae 'Ti a fi' yn cael ei gynnal bob bore Gwener rhwng 10 a 11:30 yn y Caban, sy'n gyfle eto i ddarpar rieni ddod draw am baned a sgwrs ac i gael blas ac ymdeimlad o'r ysgol.

Eleni, rydym wedi bod yn ffodus iawn o allu prynu Bws mini newydd ar gyfer defnydd yr ysgol a'r gymuned. Mae hyn unwaith eto yn cadarnhau'r cyswllt agos sydd gan yr ysgol a'r gymuned, gan fod y gymuned leol yn gwneud defnydd rheolaidd o'r bws. Rydym hefyd eleni wedi cael gosod Defibrulator newydd ar ffens yr ysgol sydd ar gael i'r gymuned pe bai angen. Rydym yn hynod o ffodus i gael cymuned sy'n gefnogol iawn o'r ysgol.

Mae gennym gyswllt agos gyda'r Esgobaeth hefyd wrth i Barchedig Martin Pritchard a Barchedig Andras Iago gynnal gwasanaethau yn rheolaidd, Mr Neil Roberts gynnal gwasanaethau yn dymhorol a chriw 'Agor y Llyfr' ddod draw bob hanner tymor i rannu a pherfformio straeon o'r Beibl.

*Being part of the community is very important to us as a school. Foundation Phase classes have enjoyed being able to use the 'Vicarage' garden, to hold lessons outside and have a teddy picnic. There are several members from the community that have been in the school helping with the children, whether with Art and craft work, maintaining Easter activities, gardening and also coming in to listen to some of the children reading. We have been again part of the St David's Day parade in Denbigh where it is lovely to see our children showing pride towards their community and culture. We have made use of Llanrhaeadr Church to host our Thanksgiving Service.*

*Cylch Meithrin and Clwb Sêr continue to be extremely valuable clubs for the school and the local community. Also 'Ti a fi' is held every Friday morning between 10 and 11:30 in the Parish Cabin, which is another opportunity for prospective parents to come over for a cup of tea and a chat and to get a taste and feel of the school.*

*This year, we have been very fortunate to be able to purchase a new minibus for school and community use. This once again shows that we have a very close bond with the community, as the local community make use of the bus regularly. This year we have also had a new Defibrulator installed on the school fence which is available to the community if needed. We are extremely fortunate to have a community that is very supportive towards the school.*

*We also have a close contact with the Diocese as Reverend Martin Pritchard and Reverend Andras Iago hold services regularly, Mr Neil Roberts our Bishop Visitor, holds services termly and the 'Open the Book' group come to school every half term to perform and share stories from the Bible.*

**Darpariaeth ar gyfer plant ag Anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol /**

***Provision for children with Disabilities or Additional Educational Needs***

Nod yr ysgol ydi datblygu pob disgybl hyd at eithaf ei allu ac mae darpariaeth ar gael i gynorthwyo'r disgyblion i wneud hynny. Mae Mrs Jan Roberts wedi bod yn dod i mewn i wneud gwaith cefnogi gwirfoddol yn rheolaidd, ac rydym hefyd yn cyflogi dau gymhorthydd i wneud gwaith targedu.

Nodir ym mholisi ADY yr ysgol y drefn o adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag ADY. Y pennaeth a Senco'r Clwstwr sef Manon Tudur sy'n gyfrifol am gydlynu'r ddarpariaeth briodol ac mae aelod o'r Corff Llywodraethol hefyd wedi'i dewis i fonitro'r polisi.

Cynhelir cyfarfodydd Cynllunio gyda'r Awdurdod Addysg yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau i'n plant. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd efo'r Seicolegydd Addysg, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Iaith a Lleferydd ac asiantaethau arbenigol eraill. Yn ogystal â hyn, mae ysgolion Clwstwr Glan Clwyd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion ADY.

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd mewn hyfforddiant ac adnoddau er mwyn i ni allu ymateb i anghenion ein dysgwyr - hyfforddiant i gefnogi Llythrennedd a rhifedd ac Ymarfer Gwybodus am Drawma mewn ysgolion.

*The aim of the school is to develop each pupil to the maximum of their ability and provision is available to help the pupils to do that. Mrs Jan Roberts has been coming in to do voluntary support work regularly, and we also employ two assistants to do targeting work.*

*The school's ALN policy states the procedure for identifying, assessing and providing for pupils with ALN. The headteacher and Cluster Head, Manon Tudur, are responsible for coordinating the appropriate provision and a member of the Governing Body has also been chosen to monitor the policy.*

*Planning meetings are held with the Education Authority during the year to ensure the best provision for our children. This includes meetings with the Educational Psychologist, the Behaviour, Language and Speech Support Service and other specialist agencies. In addition to this, Glan Clwyd Cluster schools meet regularly to discuss ALN issues.*

*During the year, we invested in training and resources so that we could respond to the needs of our learners - training to support Literacy and numeracy and Trauma Informed Practice in schools.*

***POLISÏAU'R YSGOL / SCHOOL POLICIES***

*Cafodd nifer o bolisïau cwricwlaidd a rheolaethol eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ac mae copïau ohonynt ar gael yn yr ysgol.*

*A number of curricular and management policies were reviewed – copies of which are available on request.*

***YMDRIN Â CHWYNION / DEALING WITH COMPLAINTS***

*Mae gan yr ysgol ethos agored cyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld y Pennaeth i drafod unrhyw bryder. Pan fo angen codi cwyn am agwedd o waith yr ysgol, dylid cysylltu â'r Pennaeth ac os na chewch eich bodloni, cysylltwch â Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Os yw'r mater dal heb ei datrys cysylltwch â'r Adran Addysg yn y Cyngor Sir.*

*The school has an open and friendly ethos and you are welcome to arrange to meet the Head teacher to discuss any concerns. If you have a complaint about any aspect of school work, the first point of contact should be the Head teacher, and if you are not satisfied, you should contact the Chair of Governors and then, if the matter is unresolved, the Local Authority.*